**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mick Antoniw AS
Cadeirydd y Pwyllgor,
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

seneddDCC@senedd.cymru

3 Rhagfyr 2020

Annwyl Gadeirydd

**Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Swyddogaethau Awdurdodau Lleol etc.) (Cymru) 2020**

Rwy'n ddiolchgar i'r pwyllgor am nodi'r amryfusedd yn fy llythyr at y Llywydd ar 17 Medi yn ei hysbysu byddai'r Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Swyddogaethau Awdurdodau Lleol etc.) (Cymru) 2020 yn dod i rym ar yr un diwrnod ag y cawsant eu gosod gerbron y Senedd ac felly y byddent mewn grym am rai oriau cyn eu gosod.

Yr ydych yn iawn i dynnu sylw at y ffaith mai'r rheswm am y brys oedd bod y rheoliadau hyn yn dirymu ac yn disodli Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Swyddogaethau Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2020 ac roedd yn hanfodol bod unrhyw amheuaeth ynghylch y pwerau sydd ar gael i awdurdodau lleol i ymateb i bandemig y coronafeirws yn cael ei ddatrys fel mater o frys. Dyna'r rheswm yn wir pam y daeth y rheoliadau i rym cyn iddynt gael eu gosod.

Rwy'n anfon copi o'r ymateb hwn at y Llywydd a gobeithio y bydd hefyd yn derbyn fy ymddiheuriadau am yr amryfusedd yn fy llythyr dyddiedig 17 Medi. Rwy'n ymddiheurio am yr oedi wrth ymateb i'ch llythyr am y mater hwn.

Rwy'n ddiolchgar am y craffu a'r goruchwylio y mae eich pwyllgor yn eu darparu mewn perthynas â'r swm mawr o ddeddfwriaeth sydd wedi'i gwneud fel rhan o'n hymateb i bandemig y coronafeirws.

Dymuniadau gorau

Mark Drakeford

**MARK DRAKEFORD**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.